ATGOFION AM BENTREDŴR

O ddiwrnod cyntaf mis Mawrth 1945 hyd ddiwedd Mawrth 1968, BRYN GOLAU oedd fy nghartref. Carlamodd dros hanner cant o flynyddoedd ers hynny, a thebyg fod cryn rhwd ar y cogs erbyn hyn, ond mae'r atgofion yn glir a dyma fraslun cryno ohonynt.

CARTREF

Bwthyn gwyngalchog, pedair ffenest, drws yn y canol, dwy 'stafell i fynny, dwy i lawr. Ynghlwm iddo pedwar cwt - un yn weithdy a lle I gadw'r motor-beics, un yn gwt i'r ieir, arall yn gwt glo ac ar y pen cwt mochyn - er na fu 'rioed fochyn o'i fewn yn ein hamser ni yna, os erioed. Dyna'r sgerbwd. Yn raddol adeiladwyd estyniad i'r dde - cegin fechan a stafell o'i ol i olchi dillad, twb a mangl, ac yn hwyrach eto, i'r cefn, bathrwm. Peth bellter o'r ty roedd y 'ty bach' ac yn y cae cyfagos, sied a adeiladwyd gan fy mrawd, Cyril, i atgyweirio hen fotor-beics, ei ddiddordeb oes.

Er mai digon elfennol oedd y cyfleusterau, y broblem fwyaf oedd dim dwr o fewn y ty. Yn wir, roedd rhaid cerdded i lawr cae at y ffynnon a'i gario mewn bwcedi'n ol i'r ty. Dyna'r orchwil i'r teulu oll pob nos Sul yn barod at ddiwrnod golchi Mam fore Llun, heb son am llawer diwrnod arall! Job diflas ar y gorau ond digon i un golli tymer mewn tywydd drwg wrth slipio a cholli hanner y fwced a gorfod mynd yn ol a dechrau eto! Daeth rhyw fath o ryddhad pan brynodd fy mrawd injan i bwmpio'r dwr i fynny at y ty ac o! y wefr o droi'r tap! Siom na estynwyd y pleser i fedru 'tynnu tsiaen' a bwced a rhaw fu hi hyd y diwedd! Ffars i ddweud y gwir yw son am 'fathrwm' - heb ddwr yn y tap nes mynd lawr at y ffynnon a thanio'r injan!

Roedd y ty yn berchen gan y teulu Robertson, Llantysilio Hall ac iddyn nhw bu talu'r rhent, diwrnod pwysig yng nghalendar y flwyddyn. Dwn i ddim sawl acer o dir oedd gyda'r ty ond fel 'small holding' fel y gelwir, roedd tua 20+ o ddefaid yn pori, gwair i'w gynhaeafu, ieir a chi i'w cadw. Diwrnod mawr oedd pan ddoi ffrind o Ty Canol, Eglwyseg, draw rhyw fin nos i 'siarad syms' am y prynu a'r gwerthu, oherwydd gwyddwn y byddai 'swper cyllell a fforc' i'w gael wedi'r dadlau, a chyn gwely. Roedd yn bwysig cael y telerau gorau oherwydd ei fod yn gyfran allweddol i incwm y cartref.

YR YSGOL

Doedd ond rhaid dilyn y llwybr i lawr dau gae ac roeddwn i yna. Gwylio lle roeddwn yn rhoi 'nhraed yn yr ail gae oherwydd roedd hwnnw yn perthyn i ffermwr a gadwai wartheg yna a byddai rhain yn creu mwd lle doent i yfed dwr. Be dwi'n gofio am yr ysgol ei hun? Dwy ystafell, tan glo, llaeth yn meirioli o'i flaen yn y Gaeaf, dwy iard chwarae, 'ty bach' yn y 'top iard'. 'Ga'i fynd i'r top iard Sir'? Weithiau ar fyrder! Miss Charles, athrawes garedig y plant ieuengaf, ac wedyn yn ei dilyn, Miss Menna Hughes (Mrs. Davies wedyn), hithau'n chwarae'r piano. Bwrdd du, a sialc, gwersi'n gwrando ar y radio am natur a mynd am dro'n aml i ddarganfod y pethau natur go iawn. Prifathro yn gwrando ar gemau criced ar y radio amser chwarae. Prifathro a'r athrawes yn cerdded

i'r ysgol o'r Britannia Inn mewn eira mawr - y car yn strancio'n y rhew a'r eira yno. Prawf ysgrifen ar bnawn ddydd Gwener a chlod am yr un mwya destlus. Methu'n lan a gwneud 'long division' a mwy o waith cartref nes i'r geiniog ddisgyn!!

Cael gwnio ambell brynhawn er inni gael ein hatgoffa unwaith "Ddylem ni ddim gwnio heddiw oherwydd mae'r Brenin wedi marw". Deallais i ddim pam. Mynd i ganu mewn cyngerdd yn y Memorial Hall, Llangollen gyda dwy eneth arall, Mavis a Doreen Patrick - dwy'n canu soprano a finnau'n alto – I gynrychioli'r ysgol, a chael gwahoddiad i ail-ganu -'encore' medde nhw, heb sylweddoli nad oedd yr un ohonom yn deall y gair na'r anrhydedd. Dr. Sybil Edwards, Meddyg Ysgol, yn galw i gadw llygad ar gefnau, traed, llygaid a chlyw'r plant. Deintydd weithiau hefyd. Pader cyn cinio, pader ar ddiwedd y dydd.

CAPEL

Roedd dau gapel yn y pentref, Capel Methodist a Chapel Weslyaidd. Roeddem ni'n aelodau yng Nghapel Bethesda, Capel Methodistiaid

Be dwi'n gofio am y Capel?

Capel a Festri a stafell boiler y tu cefn ynghlwm a'r Ty Capel. Meinciau hir, Modiwlator ar y wal, cwpwrdd yn llawn o lestri te, byrddau'n cael eu gosod wrth yr angen. Cyfarfodydd Seiat a chymdeithasau yn ol y galw. Lluniaeth wedi cynghebrwng Taid, Nain mewn dillad du a het tu hwnt o smart efo pin o berlau ar yr ochr. Gorfod 'talu am set y capel' yr adeg hynny. Ar y chwith, hanner ffordd i lawr. Peidio bod yn hwyr a 'dangos ein hunain'! Hyn dair gwaith ar rai Suliau, bore am ddeg, Ysgol Sul am ddau, cwrdd yr hwyr am chwech.

O'r prysurdeb o fod yn dduwiol! Lampiau olew gyda'r hwyr - arogl paraffin. Harmoniwm. Cael cyfle i'w chwarae o oedran ifanc iawn a hynny'n ddiolch i Mrs. Eluned Evans, am gefnogaeth amhrisiadwy a roddodd dros flynyddoedd. Pregethwr o Rhos yn cymryd y gwasanaeth cyntaf imi chwarae yno, un a ddoi i ddagrau yn ei bregeth a gweddi. Roedd ambell un yn gwneud yr un peth a theimlwn yn ifanc ac annifyr ynghanol yr emosiwn. Blaenoriaid yn y Set Fawr.

"Yn bresennol fe wneir y casgliad" llais bas dwfn a melys Richard Evans ganai gyda'i faswr o frawd Eddie Evans yn y gynulleidfa - honno mewn pedwar llais. Roedd pedair yn cymeryd eu tro wrth yr organ pryd hynny. Trip yr Ysgol Sul - Rhyl, Llandudno, Bae Colwyn, Southport, New Brighton yn eu tro.

Eisteddfod Ysgol Sul - achlysur pwysig yn y calendar yn erbyn y capeli yn y Cylch. Tarian ysblenydd i'w hennill. Gwefr o'i chadw. Eisteddfod y Capel - llwyfan wedi'i chodi dros y set fawr. Mrs. Eirwen Jones, gwraig y Parch Llywlyn Jones yn beirniadu cerdd a chefais ddim mwy o ffafr a gwobrau o rannu'i henw. Siom. Fy chwaer Glenys yn canu "Y Deryn Pur" a Mrs Menna Davies yn cyfeilio, y tro cyntaf iddi ganu'n gyhoeddus a hynny erbyn dod yn oedolyn. Wedi'r oedfaon, dau gylch perffaith y tu allan i'r capel, merched wrth y stepan drws a'r dynion gyferbyn wrth ffens y cae. Stanley a Myfanwy Roberts yn byw yn y Ty Capel ac a'r cyfrifoldeb o gadw'r adeilad yn drefnus a thanio'r boiler mewn da bryd pob bore Sul yn ystod y tywydd oer. Ewythr a modryb i mi oeddent.

HAMDDEN
Criced a hop scotch efo plant y pentref ar y ffordd fawr y tu allan i'r White Hart - dim car mewn golwg. Gyda fy ffrind Gillian am dro hyd ffordd Eglwyseg, at yr Eglwys, lawr y lon at Tanyfron ac ar waelod yr allt dod at murddun Pandy - lle rhamantus yr olwg i mi gyda nant a phont o bren drosti. Sgwenais bwt o bennill amdani - yna i fynny at Penclawdd ac ar draws y Cae Dentur (sychu gwlan?) yn ol am adre.

"Dim ond darn o bren digelfydd ddengys greithiau gwynt a glaw, Tanddi'r arian ddwr yn llifo beunydd at y Ddyfrdwy draw." Tybed sut aeth y sgwrs - Gillian yr eneth dawel a chlyfar tu hwnt....

Daeth MANWEB a newid byd. Offer coginio, popty - dim rhaid tegell ar y tan. Teledu - gweld y byd.

CYFATHREBU
Angen anfon neges adref o rhywle, ffonio Elza Post - byddai hi'n gweiddi'r neges i fynny'r cae o tu ol i'r ty! Byddai rhywn adre'n siwr o'i chlywed. Mrs. Eluned Evans yn son am rhyw system oedd ganddynt o gysylltu draws y dyffryn. Rhyw fath o semaphore?

SETIO'R CLOC
Mr. Bond yn cerdded i fynny'r cae at ein ty yr union amser bob bore gwaith I ddal y bws bach yn mynd i'r chwarel. Modryb Myfanwy yn hongian dillad ar y lein ben bore Llun bron cyn olau dydd.

IAITH
Iaith yr iard oedd Saesneg - er fod y gred mai ysgol Gymraeg oedd hi ac acen gref at ddysgu'r iaith gan y prifathro. Ychydig iawn o deuluoedd oedd a'r Gymraeg ar yr aelwyd a llawer o deuluoedd wedi symud i mewn i'r pentref - ond hefyd llawer o'r plant yn gadael yssgol a chryn adnabod ar y Gymraeg.

SWN
Adar, motorbeic, tractor Fergie, fy mrawd bach Gareth yn canu nerth ei ben ar y ffens o flaen y ty mewn llais mwyaf swynol, Eddie Evans yn chwislo ar ei dractor, rhywun yn galw'r gwartheg i'w godro.

CYFFRO
Lori yn cael damwain uwchben ein ty - llawn o wyau ac ieir - lwcus na wnaeth ddisgyn ar y to.

YR YSGOL FEL PONT GYMUNEDOL
Sefydliad y Merched (W.I.) - nid oeddwn yn aelod ond byddwn yn dod i chwarae'r piano ar adegau cyfleus - nes i un o'r aelodau brynu tocyn aelodaeth imi fel anrheg er mwyn imi allu ymuno heb dramgwyddo'r rheolau - ond a phob parch, doeddwn fawr o eisiau bod yn aelod - calla dewi! Nosweithiau Chwist. Dathlu Blwyddyn newydd: Noson i holl drigolion y pentref - pawb yn dod a'u doniau. 'Topicals' am ddigwyddiadau'r flwyddyn aeth heibio - plant, pobl ifanc, grwp sgiffl (twb golchi ag ati), gwisgo, dawnsio, dal dwylo Auld Lang Syne.